**Grŵp Aberystwyth Gwyrddach** *(yn Gymraeg drosodd)*

# Newsletter

(Printed on re-cycled paper)

**Greener Aberystwyth Group**

www.aber-gag.org.uk

**No. 1 December 2006**

**Editor: Laurie Wright**

## GAG - now launched

After a year of discussions by an informal steering committee, the Greener Aberystwyth Group was officially launched on 27 July. Over 80 people came to the Morlan Centre to hear Iolo Williams give his support to the event. A constitution was adopted and a committee formed. Photos of our green spaces, street trees and current projects were on display. GAG is grateful to CAVO for a grant towards the costs of setting up the group. Our website on www.aber-gag.org.uk is now up and running.

## Come and join us

If you want to become a member of GAG, and receive each newsletter (by e-mail, or delivered by volunteers), please contact Roger Bray by telephone (01970 612259) or e-mail (rogerpbray@aol.com). There is no membership fee as yet, but donations are welcomed.

## Green spaces do work - it's official!

Did you know that for every 10% by which a town increases its green space provision, its inhabitants become on average five years younger in health terms? Or that children who walk to school through greenery are less likely to suffer mental health problems, or suffer from bullying at school? Or that sick people recover more quickly when they can see trees and gardens? These facts are now confirmed by scientific studies, according to Natural England, a newly created government agency.

## Preparing for the Future

Over 300 trees growing in Aberystwyth streets have been surveyed by GAG members, led by Peter Walters Davies and Arthur Chater. The survey will help our discussions with town and county councils on how to make our streets greener. It will also help to increase public awareness of street trees. Try the Street Tree Quiz on our website: www.aber-gag.org.uk.

In another exciting project, GAG has received a small grant from the Countryside Council for Wales to carry out a survey of the green spaces in and around the town. With the guidance of Dr Richard Lucas of UWA we have engaged one of his former postgraduate students, Catherine Whormsley, to carry out the work during the autumn. She will base her study on aerial photographs and other remote sensing techniques. The results will give us an up to date map of all the different types of green spaces - a sound foundation on which to base GAG's future programme.

## Planning Applications

Two planning applications to Ceredigion are currently causing concern to GAG, which has objected to both:
(1) In Infirmary Road (off North Road), two applications have been made to build 18 apartments at the foot of Parc Natur Penglais Local Nature Reserve, in addition to the large blocks of flats which have already been built. *Latest news: there will be a WAG Public Inquiry - contact richard@macve.org for details.*
(2) In Llanbadarn, an application has been made to put a house in the grounds of Bronpadarn mansion by the exit of the footpath onto Penygraig Lane by the school. It has substantial implications for owls, bats and the abundant wildlife currently enjoyed by the many people who use the right of way across the garden from Primrose Hill to Cwm Padarn School.

## Working to Make our Streets Greener

Lyndon Griffiths, Ceredigion County Council's new Streetscene Manager, aims to make the streets of Aberystwyth pleasanter and greener. He met GAG Chairman and five Committee Members on 30 October for what was a very positive meeting about possible cooperative efforts. As ever, finance rules. He will provide us with written details of his responsibilities and plans, and about restrictions on planting; and GAG is to provide him with suggestions of sites for new trees. In the meantime, there will be action about replacing several dead trees. Watch this space!

## New Public Footpath

The path which starts in Penglais Road by the bus stop opposite the hospital, and follows the Dingle up to the drive of Plas Penglais, to rejoin Penglais Road by the drive entrance, became a Right of Way in January 2006. It has now been adopted by the County Council. Waymarkers and new steps were provided with the help of Ramblers Association volunteers in October 2006.

## Volunteers wanted

Volunteers are continuing to clear rubbish from the Plas Crug ditch. If you would like to help, please contact Peter Walters Davies (e-mail:davies1912@tiscali.co.uk).

And if you can help distribute the Newsletter in your area, please phone the editor (tel. 612183).

*(English overleaf)*

**Grŵp Aberystwyth Gwyrddach**

# Cylchlythr

(Ar bapur wedi ei ail-gylchu)

**Rhifyn 1 Rhagfyr 2006**

**Golygydd: Laurie Wright**

**Greener Aberystwyth Group**

www.aber-gag.org.uk

........................... ............................ .. .

## GAG - wedi ei lansio

Ar ôl blwyddyn o drafodaethau gan bwyllgor llywio anffurfiol, fe lansiwyd Grŵp Aberystywyth Gwyrddach yn swyddogol ar 27 Gorffennaf. Daeth dros 80 o bobl i'r Morlan i glywed Iolo Williams yn rhoi ei gefnogaeth .i'r achlysur. Mabwysiadu cyfansoddiad a ffurfio pwyllgor oedd y cam cyntaf. Dangoswyd casgliad o luniau o'n lleoedd agored, o goed yn strydoedd Aberystwyth, ac o brosiectau presennol GAG. Mae GAG yn ddiolchgar i CAVO am gael grant i leihau costau sefydlu'r grŵp.

## Croeso i aelodau newydd

Os dymunwch chi fod yn aelod o GAG, a derbyn pob Cylchlythr (trwy e-bost neu wedi ei ddosbarthu gan wirfoddolwyr), a wnewch chi gysylltu â Roger Bray trwy ffonio (01970 612259) neu anfon e-bost (rogerpbray@aol.com). Does dim tâl aelodaeth ar hyn o bryd, ond croesawir rhoddion i GAG.

## Mae gwyrddni yn gweithio!

A wyddoch chi fod tref sy'n ehangu ei lleoedd gwyrdd o 10% yn gwella iechyd ei thrigolion fel petaen nhw'n bum mlynedd yn iau? Neu fod plant sy'n cerdded i'r ysgol trwy wyrddni yn llai tebyg o ddioddef broblemau iechyd meddyliol neu o gael eu herlid gan blant eraill yn yr ysgol? Neu fod cleifion yn gwella yn gynt pan maent yn gallu gweld coed a gerddi? Mae arbrofion gwyddonol wedi cadarnhau'r ffeithiau hyn, yn ôl *Natural England*, asiantaeth newydd y llywodraeth yn Lloegr.

## Canllawiau i'r dyfodol

Mae aelodau GAG, o dan arweinaid Peter Walters Davies ac Arthur Chater, wedi gorffen arolwg o dros 300 coeden sydd yn tyfu yn strydoedd Aberystwyth. Bydd yr arolwg yn hyrwyddo trafodaethau gyda chyngorau (tref a sir) ar ffyrdd o wneud ein strydoedd yn wyrddach. Bydd yn help hefyd i godi ymwybyddiaeth am goed y strydoedd. Fe allwch chi weld peth o'r arolwg yn y *Cwis am goed yn ein strydoedd* ar ein wefan www.aber-gag.org.uk.

Menter gyffrous arall: mae GAG wedi derbyn grant oddi wrth Gyngor Cefn Gwlad Cymru i wneud arolwg o'r llefydd gwyrdd tu fewn ac o gwmpas y dref. Gydag arweiniad Dr Richard Lucas o PCA, rydym wedi penodi un o'i gyn-fyfyrwyr uwch-raddedig i wneud y gwaith yn ystod yr Hydref 2006, Catherine Whormsley. Fe fydd hi yn defnyddio lluniau o'r awyr a thechnegau eraill fel sail ei gwaith. Bydd y canlyniadau yn rhoi i ni fap newydd o'r mathau gwahanol o lefydd gwyrdd i gyd. Bydd hwn yn sylfaen gadarn i raglen GAG am y dyfodol.

## Ceisiadau cynllunio

Mae dau gais cynllunio i'r Cyngor Sir yn destun pryder i GAG, sydd wedi gwrthwynebu'r ddau:

(1) Wrth yr hen Ysbyty Ffordd y Gogledd, mae dau gais am godi 18 fflat ar waelod Gwarchodfa Natur Lleol Parc Natur Penglais, yn ogystal â'r fflatiau mawr sydd yna yn barod. *Newyddion diweddaraf: fe fydd Ymchwiliad Cyhoeddus - cysylltwch â* richard@macve.org *am fanylion.*

(2) Yn Llanbadarn, mae cais am godi tŷ yng ngardd plasty Bronpadarn lle mae'r llwybr troed yn mynd allan i Lôn Penygraig (wrth yr ysgol). Mae pryderon am y tylluanodd, ystlumod a'r bywyd gwyllt helaeth sydd yn cael eu mwynhau hyd yma gan bobl sydd yn cerdded ar y llwybr cyhoeddus dros yr ardd o Lôn Briallu ("Primrose Hill") i Ysgol Cwm Padarn.

## Gwaith glasu ein strydoedd

Mae Lyndon Griffiths, Rheolwr Strydoedd newydd Cyngor Sir Ceredigion, yn bwriadu gwneud strydoedd Aberystwyth yn well ac yn wyrddach. Cyfarfu ef â chadeirydd ac aelodau GAG ar 30 Hydref. Roedd hi'n gyfarfod positif iawn, i drafod y posibiliadau o gydweithredu. Costau ydy'r broblem fwyaf: diwedd y gân yw'r geiniog! Ond fe fydd ef yn anfon manylion o'i gyfrifoldebau a'i gynlluniau, a hefyd o gyfyngiadau ar blannu. A bydd GAG yn awgrymu llefydd i blannu coed newydd. Yn y cyfamser, bydd gwaith i blannu coed newydd yn lle y rhai sydd wedi marw. Mwy i ddod...!

## Llwybr cyhoeddus newydd

Mae'r llwybr sy'n dechrau yn Ffordd Penglais wrth y safle bysus, gyferbyn â'r ysbyty, ac sy'n dilyn Ceunant Penglais ("The Dingle") i fynny i ddreif Plas Penglais, ac yn ôl i Ffordd Penglais wrth y fynedfa, wedi mynd yn hawl tramwy ("Right of Way") ers Ionawr 2006. Mae'r Cyngor Sir wedi ei fabwysiadu. Rhoddwyd arwyddion a grisiau newydd ym mis Hydref, gyda chymorth gwirfoddolwyr Cymdeithas y Cerddwyr.

## Eisiau gwirfoddolwyr

Mae gwirfoddolwyr yn dal i glirio llanast o'r ffos ym Mhlas Crug. Os dymunwch chi helpu, a wnewch chi gysylltu â Peter Walters Davies (davies1912@tiscali.co.uk). Ac os gallwch chi helpu i ddosbarthu'r Cylchlythr yn eich ardal, a wnewch chi ffonio'r golygydd (612183)?